Hawdd ei ddeall

Disability Wales
Anabledd Cymru

Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit
Wales Civil Society Forum on Brexit

# Brexit ac Anabledd

## Rhai cwestiynau ac atebion am sut y mae Brexit yn gallu effeithio ar bobl anabl yng Nghymru



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: Brexit ac Anabledd Cwestiynau Cyffredin. Ysgifenwyd y ddogfen hon gan Prosiect Fforwm Brexit mewn partneriaeth gydag Anabledd Cymru.

**Tachwedd 2019**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae e mewn ysgrifen glas normal. Gallwch weld beth maen nhw'n feddwl ar dudalen 31.

Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit
Wales Civil Society Forum on Brexit

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**,, mae hyn yn meddwl **Prosiect Fforwm Brexit**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Cyfeiriad:** www.brexitforumwales.org

**E-bost:** whitmorecd@cardiff.ac.uk

Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Cynnwys

**Tudalen**

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma....................................................2

Cyflwyniad....................................................4

Am y ddogfen yma....................................................5

Cwestiynau am feddyginiaeth a thechnoleg gynorthwyol....................................................7

Cwestiynau am bobl o'r UE....................................................12

Cwestiynau am hygyrchedd....................................................14

Cwestiynau am fudd-daliadau....................................................16

Cwestiynau am y gyfraith....................................................18

Cwestiynau am deithio ar ôl Brexit....................................................21

Cwestiynau am arian....................................................24

Cwestiynau am gefnogaeth i gyrff a chymunedau....................................................29

Geiriau anodd....................................................31

# Cyflwyniad

Ni ydy'r **Prosiect Fforwm Brexit** ac **Anabledd Cymru**. Mae'r **Prosiect Fforwm Brexit** yn cael ei redeg gan:

- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)**
- **Prifysgol Caerdydd**

Rydyn ni'n cael arian gan y **Sefydliad Addysg Cyfreithiol** i redeg y **Prosiect Fforwm Brexit**.



Mae **Anabledd Cymru** a'r **Fforwm** wedi gweithio mewn partneriaeth i ysgrifennu'r ddogfen yma.



Ein nod ydy helpu cyrff fel elusennau a grwpiau cymunedol.



Rydyn ni eisiau eu helpu i ddeall **Brexit** a bod yn rhan o wneud penderfyniadau



**Brexit** ydy'r enw sydd yn cael ei ddefnyddio am Brydain yn gadael yr **Undeb Ewropeaidd** neu'r UE.

Grŵp o wledydd ydy'r **Undeb Ewropeaidd** lle mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd.

## Am y ddogfen yma




Mae'r ddogfen yma yn dweud sut y gallai **Brexit** effeithio ar bobl anabl.



Rydyn ni wedi cynnal digwyddiad ac wedi siarad gyda llawer o bobl am sut y gallai **Brexit** effeithio ar bobl anabl.




Mae'r ddogfen yma yn ateb y cwestiynau y gwnaethom ni eu casglu yn y digwyddiad hwnnw




Ar hyn o bryd mae ein gwleidyddion yn ceisio gweithio allan sut maen nhw'n gallu gwneud i Brexit ddigwydd. Maen nhw'n ceisio cael bargen dda.



Mae hyn yn bennaf yn meddwl gwneud cytundebau i brynu a gwerthu nwyddau gyda'r UE.



A gwneud cytundebau i adael i bobl o'r UE ddod i fyw yn y DU.



Ac fe fydd Brexit **dim bargen** yn meddwl nad oes gennym ni ddim cytundebau.



Fydd pobl o'r UE ddim yn cael dod i fyw yma. Ond fe fydd hi'n fwy anodd prynu a gwerthu nwyddau gyda'r UE.

# Cwestiynau am feddyginiaeth a thechnoleg gynorthwyol




**Technoleg gynorthwyol** ydy offer sydd yn gallu helpu pobl i wneud bywyd yn fwy hawdd i bobl anabl.

## 1. Fydda'i yn dal i allu cael fy meddyginiaeth ar ôl Brexit?



Efallai bydd rhai meddyginiaethau yn brin.




Mae gan y Llywodraeth gynlluniau i helpu hyn rhag digwydd.



Ond mae rhai pobl yn dal i boeni nad ydyn nhw wedi gwneud digon.



Ac mae rhai yn meddwl nad ydy hi'n bosibl cadw rhai meddyginiaethau mewn stoc.




Gofynnwch i'ch fferyllfa os ydych yn poeni.




## 2. Fydda'i yn gorfod talu am feddyginiaeth?

Ddylai Brexit ddim achosi i bobl orfod talu am feddyginiaeth.




Dydy hi ddim yn debyg y bydd y GIG yn newid yn syth ar ôl Brexit. Ond mae pobl yn poeni y bydd yna newidiadau yn gallu digwydd yn y dyfodol.



Fe fydd pobl o'r UE sydd yn byw yn y DU yn gallu defnyddio'r GIG am ddim o hyd.



Ond efallai y bydd hyn yn newid i bobl sydd yn dod i ymweld â'r DU o'r UE.




## 3. Fydd cost meddyginiaeth yn uwch ar gyfer y GIG?

Mae cost rhai meddyginiaethau wedi bod yn uwch i'r GIG.




Mae hyn oherwydd bod gwerth arian y DU wedi syrthio ers pleidlais Brexit.

## 4. Fydd y GIG yn gorfod defnyddio meddyginiaeth rhatach ar ôl Brexit? A fydd hyn yn gwneud iechyd pobl yn waeth?



Dydyn ni ddim yn gwybod ar hyn o bryd. Ond mae costau wedi codi ers pleidlais Brexit.

## 5. Fydd yna braille ar labeli meddyginiaeth o hyd?



**Braille** ydy ffordd o roi gwybodaeth i bobl sydd yn cael trafferth i weld pethau.



Fe fydd yna braille ar feddyginiaeth.



Mae'r UE yn gwneud rhagor o waith i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu deall labeli meddyginiaeth yn well.



Ond mae'n debyg na fydd y DU yn rhan o hyn ar ôl Brexit.

## 6. Fydd yna lai o wasanaethau GIG ar ôl Brexit?



Mae arbenigwyr yn meddwl y bydd gan y DU lai o arian ar ôl Brexit. Maen nhw'n meddwl y bydd hyn yn waeth os ydyn ni'n cael Brexit **dim bargen**.



Ond dydyn ni ddim yn gwybod sut y bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau.

## 7. Fydd Brexit yn meddwl y bydd pobl angen yswiriant iechyd preifat?



Does gaddon ni ddim rheswm dros feddwl hynny. Mae rhai pobl yn poeni y bydd hyn yn digwydd.



Mae'n bosibl y bydd pobl o'r DU yn cael eu heffeithio pan maen nhw'n mynd i'r UE.



Ar hyn o bryd mae pobl o'r DU yn gallu cael triniaeth am ddim yn yr UE.



Felly os ydy hyn yn newid, mae'n bwysig bod pobl yn cael yswiriant pan maen nhw'n mynd i'r UE. Ac i edrych os ydy'r yswiriant yn cynnwys problemau iechyd.

## 8. Fyddwn ni'n gallu dod ag eitemau meddygol i'r DU o'r UE?



Byddwn ond efallai y bydd yn costio mwy. Ac efallai na fydd gennym ni gymaint o hawliau ag o'r blaen.

# Cwestiynau am bobl o'r UE

## 9. Fydd pobl o'r UE sydd yn byw yn y DU yn gallu cael iechyd gofal am ddim?



Bydd. Ond efallai y bydd pobl sydd yn ymweld yn gorfod cael yswiriant.

## 10. 1Oes yna help i ddinasyddion anabl yr UE i gael y Cynllun Setliad UE?



Cynllun ydy hwn i bobl o'r UE sydd eisiau aros i fyw yn y DU.



Oes. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan **Gwasanaeth Cynghori Mewnfudo Dinasyddion yr UE**:
www.eusswales.com



Mae llawer o wybodaeth hefyd ar wefan **Llywodraeth y DU**:
www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families

## 11. Fydd Brexit yn effeithio ar faint o staff sydd gennym ni i gefnogi pobl anabl?



Mae'n anodd gwybod beth fydd yn digwydd.



Ond mae rhywfaint o wybodaeth yn dangos y gallai Brexit ei gwneud hi'n fwy anodd i gael staff.

## 12. Sut fydd Brexit yn effeithio ar gynorthwywyr personol o wledydd yr UE?



Fe fydd pobl o'r UE sydd yn gwneud y gwaith yma nawr yn gallu gwneud cais ac aros yn y DU.




Mae'r DU yn newid y gyfraith ac efallai y bydd hi'n fwy anodd i bobl o'r UE weithio yma yn y dyfodol.

# Cwestiynau am hygyrchedd




Hygyrchedd ydy gwneud rhywbeth yn fwy hawdd i bobl ei ddefnddio. Er enghraifft, gwneud gwybodaeth yn Hawdd ei Ddeall.

## 13. Fydd pasys bws yn cael eu stopio oherwydd Brexit?




Fyddan nhw ddim yn cael eu stopio oherwydd Brexit.



Ond mae yna bryder y bydd gan y DU lai o arian. Felly fe fydd gennym ni lai i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus.

## 14. Beth fydd yn digwydd i'r Bathodynnau Glas os oes yna Brxit dim bargen?



Fydd hynny ddim yn newid sut mae bathodynnau glas yn cael eu defnyddio yn y DU.



Ond dydyn ni ddim yn gwybod os bydd bathodynnau glas yn gallu cael eu defnyddio yn yr UE.

## 15. Fydd Brexit yn effeithio ar ddeddfau am hygyrchedd?



Dydyn ni ddim yn gwybod.




Mae'r UE yn mynd i gael deddfau newydd a fydd yn gwneud hygyrchedd yn well.



Ond fe fydd angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru benderfynu dilyn hyn neu beidio.



Mae rhai pobl yn poeni y bydd cymaint o waith i'w wneud ar ôl Brexit, ac na fydd materion anabledd yn cael digon o sylw.

# Cwestiynau am fudd-daliadau

**16. Fydd toriadau i wasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau yn mynd yn waeth gyda Brexit?**




Dydyn ni ddim yn gwybod.



Mater i Lywodraeth y DU bob amser ydy penderfynu faint o arian i'w roi i bethau fel budd-daliadau.



Ond mae llawer o bobl yn meddwl bod y DU yn mynd i gael llai o arian ar ôl Brexit.



Fe fydd pobl o'r UE yn parhau i allu hawlio budd-daliadau. Ond efallai y bydd yna rhai newidiadau i sut maen nhw'n gwneud hyn.




Mae gan **Cyngor ar Bopeth** wybodaeth ar eu gwefan am hyn:

www.citizensadvice.org.uk/wales/benefits/claiming-benefits-if-youre-from-the-EU/before-you-apply/check-if-you-can-pass-the-habitual-residence-test/



Fe ddylai unrhyw un sydd yn hawlio budd-daliadau ac sydd yn poeni am Brexit siarad gyda'u cyngor lleol neu elusennau am gyngor.

# Cwestiynau am y Gyfraith

## 17. Fydd dinasyddion y DU yn gallu defnyddio rhai o'r llysoedd yn yr UE?



Fyddwn ni ddim yn gallu defnyddio'r Llys o'r enw **Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd**.



Os na fydd gennym ni gytundeb gyda'r Undeb Ewropeaidd yn dweud ein bod yn cael ei ddefnyddio mewn rhai sefyllfaoedd.



Fe fyddwn ni'n parhau i allu defnyddio'r **Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd**. Dydy hwn ddim yn llys yr Undeb Ewropeaidd.

## 18. Beth ydyn ni'n gallu ei wneud i amddiffyn hawliau anabledd yng Nghymru?



Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar hyn.1 syniad ydy gwneud deddfau fel y rhai yn yr UE.





Mae angen i gyrff edrych i weld nad ydy pobl yn colli unrhyw hawliau ar ôl Brexit.

## 19. Fydd gennym ni'r ddeddf o'r enw Cynhadledd Ewropeaidd ar Hawliau Dynol?



Bydd. Ond mae'n bosibl bod hyn yn gallu newid.




Fe fyddwn ni hefyd yn parhau yn rhan o ddeddf o'r enw: **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRDP)**.



Ond mae rhai pobl yn poeni na fydd ganddyn nhw gymaint o hawliau ar ôl Brexit.

## 20. Ydy hi'n bosibl i'r DU fod â llai o hawliau am anabledd na'r UE?



Ydy, mae hynny'n bosibl.



Fe fydd y DU yn gallu dewis beth i'w wneud.




Mae rhai pobl yn poeni na fydd hawliau'r DU mor dda â hawliau'r UE dros amser.

## 21. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau ein bod yn parhau i ddilyn syniadau da yn yr UE am hygyrchedd?



Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar hyn.

# Cwestiynau am deithio ar ôl Brexit

## 22. Fydd mynd ar wyliau yn fwy drud i bobl anabl ar ôl Brexit?



Efallai. Fe fydd yn dibynnu beth sydd yn cael ei gytuno gyda gwahanol wledydd.

Fe fydd y newidiadau yma yn cael eu gwneud:




- O 2021 os ydych chi eisiau teithio yn yr UE fe fydd angen i chi wneud cais **System Gwybodaeth ac Awdurdodi Teithio Ewropeaidd (ETIAS)**. Fe fydd hyn yn costio tua 7 euros.



- Fe fyddwch chi angen yswiriant teithio preifat.



- Os ydych yn teithio dramor fe fyddwch chi angen **Trwydded Yrru Rhyngwladol**.

## 23. Fydd angen i bobl anabl sydd yn byw yn yr UE symud yn ôl i'r DU?



Fe fydd angen i bobl sydd yn byw yng ngwledydd yr UE gael rhywbeth o'r enw **hawliau preswyl parhaol**.

Mae gwybodaeth am bob gwlad ar y wefan Llywodraeth yma:




www.gov.uk/government/collections/overseas-living-in-guides




Mae gwybodaeth ar y wefan yma hefyd:

https://britishineurope.org/

Rydych chi hefyd yn gallu cysylltu gyda ni neu Anabledd Cymru am gefnogaeth:




**Prosiect Fforwm Brexit:** www.brexitforumwales.org




**Anabledd Cymru:** www.disabilitywales.org

## 24. Fyddwn ni'n gallu defnyddio Cardiau Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) ar ôl Brexit?



Os oes yna Brexit **dim bargen** mae'n debyg na fyddwn ni'n gallu defnyddio EHIC. Fe fyddwch angen yswiriant teithio.



Edrychwch i weld os ydy eich yswiriant yn cynnwys problemau iechyd.

# Cwestiynau am Arian


## 25. Fydd yna lai o arian i gyrff sydd yn cefnogi pobl gydag anabledd ar ôl Brexit?



Mae rhai gwasanaethau yn cael arian i redeg drwy'r UE.



Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd yn rhoi arian yn lle'r arian yma. Enw'r gronfa DU newydd fydd **Cronfa Ffyniant Cyffredin DU**.




Ond does dim llawer o wybodaeth am hyn. Mae rhai pobl yn meddwl y bydd arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pethau gwahanol. A hefyd efallai na fydd yna gymaint o arian.

## 26. Beth fydd yn digwydd i brosiectau sydd yn cael arian gan yr UE nawr?




Fe fydd prosiectau sydd yn cael arian nawr gan yr UE yn cael arian tan 2023. Neu tan maen nhw i fod i orffen os ydy hynny cyn 2023.



Fydd prosiectau sydd yn cychwyn ar ôl Brexit ddim yn gallu cael arian UE.



Ar ôl Brexit fe fydd angen i brosiectau gael arian o'r gronfa DU newydd. Enw'r gronfa DU newydd ydy **Cronfa Ffyniant Cyffredin DU**.

## 27. Sut rydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr bod gan bobl anabl lais am y gronfa newydd yma?



Fe fydd yna ymgynghoriad am hyn.

Fe fydd pobl yn gallu siarad gyda:



- Cyrff sydd yn cefnogi pobl anabl.
- Aelodau Cynulliad.



- Aelodau Seneddol.

## 28. Fydd Brexit yn achosi dirwasgiad?



**Dirwasgiad** ydy cyfnod o amser pan mae gwlad yn gwneud llai o arian.



Dydyn ni ddim yn gwybod. Ond mae llawer o bobl yn meddwl y bydd yna lai o arian ar ôl **Brexit**.



Ac fe fydd yn waeth os oes yna Brexit **dim bargen**.

## 29. Fydd yna doriadau i wasanaethau ar ôl Brexit?



Dydyn ni ddim yn gwybod.



Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio gwario mwy o arian i stopio hyn rhag digwydd.



Ond mae'n bosibl y bydd gennym ni lai o arian ar ôl Brexit sydd yn gallu effeithio ar wasanaethau.

## 30. Fydd yna lai o gyfleoedd i bobl anabl gael gwaith ar ôl Brexit?



Dydyn ni ddim yn gwybod.



Mae'r UE wedi gwneud llawer i helpu i wneud pethau'n fwy hawdd i bobl anabl weithio.



Mae angen i gyrff weithio'n galed i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu hawliau.

## 31. Fydd yna fwy o doriadau i gyllid ar gyfer elusennau ar ôl Brexit?



Mae rhai pobl yn poeni y bydd elusennau yn dioddef ar ôl Brexit. Oherwydd efallai y bydd gan y DU lai o arian.



Efallai y bydd yn costio mwy o arian hefyd i brynu pethau fel bwyd. Mae hyn yn gallu effeithio ar lawer o bobl.



Mae angen i elusennau wneud cynlluniau i baratoi ar gyfer Brexit.




Mae Llywodraeth y DU a Lywodraeth Cymru wedi rhoi arian i helpu.




Mae yna gronfa hefyd o'r enw **Cronfa Parodrwydd Brexit**. Mae rhagor o wybodaeth yn y wefan yma:

[www.gov.uk/government/news/business-secretary-launches-10-million-brexit-readiness-fund-for-business-organisations](www.gov.uk/government/news/business-secretary-launches-10-million-brexit-readiness-fund-for-business-organisations)

# Cwestiynau am gefnogaeth i gyrff a chymunedau



## 32. Lle rydyn ni'n gallu cael gwybodaeth dda am Brexit?

Mae gwybodaeth ar gael yn y gwefannau yma:

**Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit:**
https://www.brexitforumwales.org/cyflwyniad

**The UK in a Changing EU:**
ukandeu.ac.uk

**The Institute for Government:**
www.instituteforgovernment.org.uk/our-work/brexit

**Cynghrair Cymdeithas Sifil Brexit:**
www.brexitcivilsocietyalliance.org

**Iechyd Cyhoeddus Cymru:**
https://icc.gig.cymru/pynciau/brexit/

**Cydffederasiwn GIG Cymru:**
www.nhsconfed.org/supporting-members/brexit

**Gwefan Paratoi Cymru Llywodraeth Cymru:**
https://llyw.cymru/paratoi-cymru

**Cynllun Cefnogaeth ar gyfer Setliad UE yng Nghymru Llywodraeth Cymru:**
http://www.eusswales.com/cy/

## 33. Syt rydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n galed ar hawliau anabledd?



Mae angen i bobl siarad am faterion anabledd o hyd. A pharhau i siarad gyda chyrff am eu pryderon.

# Geiriau anodd

### Braille

Braille ydy ffordd o roi gwybodaeth i bobl sdd yn cael trafferth i weld pethau.

### Brexit

Brexit ydy'r enw sydd yn cael ei ddefnyddio am Brydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd neu'r UE.

### Dirwasgiad

Dirwasgiad ydy pan mae gwlad yn gwneud llai o arian.

### Hygyrchedd

Hygyrchedd  ydy gwneud rhywbeth yn fwy hawdd i bobl ei ddefnyddio. Er enghraifft gwneud gwybodaeth yn Hawdd ei Ddeall.

### Technoleg gynorthwyol

Technoleg gynorthwyol ydy offer sydd yn gallu wneud bywyd yn fwy hawdd i bobl anabl.

### Undeb Ewropeaidd

Grŵp o wledydd ydy'r Undeb Ewropeaidd lle mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd